# MICHAEL WHEATLE

# CYMUNED

## ETIFEDDIAETH

Ganed Michael Wheatle yn Llundain ond treuliodd ddegawdau'n byw yng Nghasnewydd - dinas a ddaeth yn gartref iddo.

Yn falch o'i etifeddiaeth Jamaicaidd a'i fywyd Cymreig, disgrifiai ei hun yn aml fel "Cymro Jamaicaidd."

Parhaodd diwylliant Caribïaidd: cerddoriaeth, hiwmor a dweud stori i fod yn ddylanwad cryf, gan siapio'r ffordd y cysylltodd â phobl a chymunedau.

## CYMRU YW...

*Cymuned* *Cyfraniad* *Angerdd*

Daeth Cymru'n gartref i Michael yn gyflym iawn.

Dywedai ffrindiau'n aml ei fod wedi dod yn "rhan o'r dodrefn," gan ddod â chynhesrwydd, hiwmor a didwylledd gydag ef lle bynnag yr âi.

Cryfhaodd byw yng Nghasnewydd ei ymdeimlad o berthyn a'i werthfawrogiad o gymuned a bywyd bob dydd.

PIONEER OF WALES



## CYFRANIAD

Cyfraniad mwyaf parhaol Michael oedd drwy ddal hanes cymunedol drwy ffotograffiaeth.

Dros ddegawdau dogfennodd filoedd o eiliadau - dathliadau, cyfeillgarwch a bywyd bob dydd drwy ei lens - gan gadw straeon cymunedol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd hefyd yn adnabyddus am fentora eraill, rhannu gwybodaeth busnes ac annog pobl i dyfu'n bersonol ac yn broffesiynol.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Credai Michael mewn sefyll dros bobl, cefnogi eraill, adeiladu cysylltiadau a helpu cymunedau i ffynnu.

> "Nid statws oedd llwyddiant iddo, ond cefnogi eraill, caru pwy ydych chi, a chymryd camau bach bob dydd tuag at adeiladu Cymru well."